CYNGOR BRO LLANGELER – 24- 02-2020

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Chwefror 24ain 2020 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **02/20 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. M Rees, Cynghorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, D Evans, Aled Eynon, Richard Evans, Ken Howell, Nesta Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. Clerc – Stella Jones. Cyfieithydd, Aelodau o'r Cyhoedd

2. **02/20 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. A Eynon, B Jones, C Jones, J Wigley

3. **02/20 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

4. **02/20 HEDDLU:** PCSO J Kedward doedd dim materion yn codi.

5. **02/20 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ionawr 27ain 2020 a'i cael yn gywir
Cynigydd – Cyng. N Jones Eilydd – Cyng. A Thomas

6. **02/20 MATERION YN CODI :**
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – *copi drafft o'r cytundeb wedi cael ei ddarllen gan yr is gadeirydd a popeth i weld yn ei le.*
10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – *toiledau wedi cau am y Gaeaf bwriedir peintio yn y Gwanwyn*
10.i.06/17 Tir Temple – *dim ychwanegol wedi digwydd ynghylch yr hewl mae perchennog y garafán yn apelio yn erbyn y Gorchymyn Gorfodaeth*
6.xx. Les Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *dwedodd y Clerc bod y les ar waith gan y cyfreithwyr*
10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – *dim i ychwanegu ar hyn o bryd*
10.07/19 Arwyddion Llwybrau Gwlân – Cafwyd adroddiad gan Cyng D Evans ar ôl iddi fynd o gwmpas y plwyf i edrych ar gyflwr yr arwyddion, mae sawl un ohonynt angen ei glanhau ac
11.1.ii.01/20 – Cwmtywyll i Pencader – *Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir*
11.2.01/20 – Tir lithriad llwybr Dolwion – *Clerc wedi rhoi gwybod i'r adran llwybrau ac mi fyddan nhw'n anfon rhywun allan i weld y safle*
11.3.i. hewl Bancyffordd i Llanpumsaint – *gwaith wedi gwneud*
11.4.ii. hewl yn suddo ger Pont Henllan – *Cyngor Sir wedi bod allan i edrych ar yr hewl ac yn bwriadu gwneud gwaith arni*
11.5.22.01/20 dŵr ar yr hewl ger Danycoed, Llandysul – *Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y sefyllfa*
11.6.i.01/20 lamp ar sgwâr Pentrecwrt – *Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir am bris ac ymweliad safle*
11.7.i.01/20 arwyddion ffordd Tŷ Coch – *Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir*

7. **02/20 GOHEBIAETH:**
i. Temporary unmeasured Christmas Lights – *169 o lampau sy gyda ni ym MhontTyweli, 13 lein ag 13 lamp ar bob lein*
ii. ebost – Cau hewl ar frys Festri Cwmpengraig, Drefach, Felindre - *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – Graham Thompson – hysbysfwrdd – *Clerc i gysylltu a gofyn at pa bwrpas maen't angen hysbysfwrdd*
iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 27.01.2020 - 31.01.2020 – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – ULlC – Bwletin Newyddion – *cylchlythyrwyd*
vi. ebost – CSG – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – *cylchlythyrwyd*
vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03.02.2020 - 07.02.2020 – *cylchlythyrwyd*
viii. ebost – Hywel Dda – Gwella ein Gwasanaeth Tu Allan i Oriau – *cylchlythyrwyd*
ix. ebost – CSG – Estyniad i'r cyfnod ymgynghori ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol adroddiad atodol drafft-yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal – *cylchlythyrwyd*
xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10.02.2020-14.02.2020 – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – ULlC – Spring Clean Cymru - 20 Mawrth – 13 Ebrill – *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost – CSG – Gwahoddiad Cynghorau Tref a Chymuned 18-03-2020, Parc y Scarlets 10yb-4yp – *cylchlythyrwyd*
xiv. ebost – Aelodaeth Un Llais Cymru – *cylchlythyrwyd*
xv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17.02.2020 - 21.02.2020 - *cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – Jane Mansfield – Golau Stryd – *cylchlythyrwyd*
xvii. ebost – Dyfed Powys Police - Cynhadledd Plismona mewn ardal wledig 9.30-245 ar 6ed o Fawrth – cylchlythyrwyd
xviii. Cyng. Chris Jones – Cwmpengraig – *ffindio mas pwy yw perchnogion y tir a gofyn iddynt glirio'r afon*
xix. ebost – ULlC – Clefyd Coed Ynn - *cylchlythyrwyd*

8. 02/20 CYNLLUNIO
Cais Ymgynghori llawn
W/40176 - land adj to afon Teifi Camping & Caravan Park, Pentrecagal, Newcastle Emlyn, SA38 9HT – bwriad i godi tŷ sengl gyda garej ar wahân – *dim gwrthwynebiad*
W/40221- Rhos Nant Einon, Rhos, SA44 5AF – garej sengl – *cefnogi*
_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

9. 02/20 MATERION ARIANNOL

a.Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 24/02/2020 .....£71.40
ii. HIRIO NEUADD YR EGLWYS – cyfarfod 24/02/20 .....£10.50
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
iii. Swyddfa Archwilio Cyfrifon [archwilio cyfrifon 2018/19] £191.35
iv. CLERC [blodau i Mrs L Davies a Mrs M Davies, penblwyddi yn £100] £276.75
v. U.Ll.C. [aelodaeth] £542.00
vi. Lwfans Cadeirydd £500.00

Arian yn y Banc ar 06/02/2020 .....£25,660.35

c. S/O

Cyflog y Clerk £600.00

d. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Y Garthen - £100

10. 02/20 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Dim

11. 01/20 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng. J Crossley – i. Parc Saron – dwedodd bod yr yswiriant wedi cael ei dalu gan Emyr Jones a gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn talu am yr yswiriant – yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gofyn am gael cyfrifon y pwyllgor.
ii. cyflwr y llwybr o PwllMarl i Davies & Davies
2. Cyng. D Smith – i. gofynnodd pwy sydd a chyfrifoldeb am y blwch diffibrilydd
3. Cyng. J Ayres – i. llifddwr ar yr hewl ger y byngalo ar ôl mynd allan o Pentrecwrt – *rhoi gwybod i'r Sir*
ii. cerrig wedi golchi lawr yr hewl ger fferm Shadog, Pentrecwrt
4. Cyng. D Evans – i. dau bwll dŵr peryglus yn dilyn y glaw mawr rhwng Gilwen a'r encilfa ochr isaf fferm Aberhalen

12. 02/20 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul nos Lun Mawrth 30ain 2020 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.50yh

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

.